

## *Rwy Eisiau Darganfod Hanes Fy Nheulu*

### **Sut i Olrhain Hanes Eich Teulu**

**C**eir nifer o ffynonellau gwybodaeth, ac 'ni all yr arweiniad hwn ond sôn am y math o ddogfennau fydd yn rhoi gwybodaeth i'r nifer mwyaf o bobl: ond am y rheswm hwn mae hi'n werth edrych drwy'r mynegeion yn yr Archifdy gan ei bod hi weithiau'n bosibl canfod gwybodaeth am gyndeidiati mewn casgliadau bach amrywiol o ddogfennau yn yr Archifdy.

Un o broblemau a maglau hanes teuluoedd yng Nghymru yw'r anhawster a achosir gan gyfenwau ac enwau bedydd cyffredin, fel ei bod hi'n amhosibl gwybod pa un o'r nifer o William Jonesiaid, er enghraifft, yw'r un cywir. Achosir problemau hefyd gan y drefn Gymreig o ddewis cyfenw lle byddai'r plant yn cymryd enw bedydd y tad fel cyfenw, a hwn yn newid o genhedlaeth i genhedlaeth, ac felly'n achosi problemau adnabod. Yng Ngwynedd, parhaodd yr hen drefn Gymreig yn y mwyafrif o deuluoedd (ar wahân i'r dosbarthiadau proffesiynol, tiriog a masnachol) tan ddechrau neu ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n bwysig nodi fod galwedigaethau a chyfeiriadau yn newid yn aml yn arbennig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

#### **Perthnasau**

Y cam cyntaf i unrhyw un sydd â diddordeb yn hanes y teulu yw cysylltu â chynifer o berthnasau a phosibl (yn arbennig aelodau hyn y teulu), i gasglu enwau, llefydd, galwedigaethau a dyddiadau ac edrych ar unrhyw ddogfennau teuluol e.e. beiblau teulu. Wrth gwrs, nid yw bob cof yn gwbl ddibynadwy, ond mae gofalu bod manylion yn gywir yn rhoi lle da i gychwyn.

#### **Cymdeithas Hanes Teuluoedd**

Mae'n syniad da cysylltu â Chymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd i gyfarfod a phobl eraill sy'n gwneud yr un math o ymchwil a chyfnewid syniadau. Cyfeiriad cadeirydd *Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd* yw Mr Myfyr W Hughes, 3 Cae Croes, Y Bala, Gwynedd LL23 7RQ.

#### **Ffynonellau Print**

I deuluoedd sydd wedi bod a chysylltiad a'r bonedd tiriog, gall llyfrau o achau print neu lyfrau megis *Debretts* neu *Burkes* fod o gymorth. Un llyfr sy'n cynnwys achau lleol yw *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* gan John Edward Griffith sydd ar gael yn Archifdai Gwynedd.

Fodd bynnag, i'r mwyafrif o bobl, wedi cael hyd i gymaint o fanylion a phosibl o fewn cylch y teulu ac ysgrifennu'r manylion ar bapur, y cam nesaf yw dechrau chwilio am ffynonellau o'r tudallan. Mae hwn yn ymchwil sy'n cymryd llawer iawn o amser ac yn aml yn waith rhwystredig iawn, ond mae'r nifer cynyddol o bobl sy'n ymgymryd ag ef yn dangos bod yr ymdrech a'r amynedd yn werth y drafferth.

#### **Cofrestru Sifil**

Cyflwynwyd cofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau ar Orffennaf 1, 1837 ond gan nad oedd cosb am fethu â chofrestru tan 1875, gall fod bylchau (yn enwedig am enedigaethau) yn y cofrestru cynnar. Mae'r Cofrestrwyr Arolygol, sydd â gofalu y gwahanol

ardaloedd cofrestru drwy'r wlad, yn cadw'r holl gofrestri o 1837 ymlaen, ac yn danfon copiâu o gofrestriadau newydd yn chwarterol i'r Swyddfa Gofrestri Cyffredinol, lle cesglir mynegeion cenedlaethol. Cofnodir digwyddiadau ar wahân ac nid mewn unrhyw drefn deuluol, a rhaid chwilio am bob cofnod yn y mynegeion chwarterol sy'n dilyn trefn y wyddor am enedigaethau, priodasau a marwolaethau. Nid oes tal am chwilio'n y mynegeion, ond ni ellir archwilio'r cofrestri'u hunain a cheir manylion llawn yn unig ar ffurf copi o dystysgrif y mae'n rhaid ei phrynu. Mae'r wybodaeth a geir yn y tystysgrifau hyn o werth mawr i haneswyr teulu.

Mae Tystysgrifau Geni'n rhoi dyddiad a man geni, enw(au) bedydd y plentyn, fel rheol enw a galwedigaeth y tad, enw a chyfenw morwynol y fam - gyda'i chyfeiriad arferol os bu i'r enedigaeth ddiwydd yn rhywle arall, ac enw a chyfeiriad hysbysydd y cofrestriad.

Mae Tystysgrifau Priodas yn rhoi enwau ac fel arfer oed y ddeuddyn, eu statws priodasol a'u chyfeiriadau, enwau a galwedigaethau'u tadau, dyddiad a man eu priodi ac enwau'r tystion.

Mae Tystysgrifau Marwolaeth yn cofnodi enw(au), dyddiad, man, oed, achos marwolaeth, ac enw a chyfeiriad hysbysydd y cofrestriad. Nid ydynt yn dangos man y geni na'r rhieni.

Mae Tystysgrifau Geni yn rhoi digon o wybodaeth i chwilio am briodas y rhieni ac o'r manylion ar Dystysgrifau Priodas mae hi'n bosibl chwilio am eni'r ddeuddyn.

Gellir cael tystysgrifau o'r Swyddfa Gofrestri Cyffredinol, St. Catherine House, 10 Kingsway, Llundain, WC2E 8JF neu oddi wrth Gofrestrydd Arolygol yr ardal lle bu'r digwyddiad. Ar gyfer Cofrestrydd Arolygol Gwynedd; gweler o dan Cyngor Sir Gwynedd yn y llyfr telefon. Os na wyddys ym mha ardal y bu'r digwyddiad fe fydd yn rhaid edrych drwy'r mynegeion yn yr ystafell ymchwil yn y Swyddfa Gofrestri Cyffredinol. Os, fodd bynnag, yw ardal a dyddiad y digwyddiad yn fras yn hysbys, gellir cael tystysgrifau, fel arfer yn gyflymach ac yn rhatach, oddi wrth y Cofrestrydd Arolygol perthnasol.

Isod gwelir y ffynonellau sydd ar gael yn yr Archifdai eu hunain.

### **Canlyniadau Cyfrifiad**

Mae'r rhain yn ffynonellau ffrwythlon o wybodaeth ar gyfer haneswyr teulu. Cymerwyd Cyfrifiad bob deng mlynedd o 1801 ymlaen ar wahân i 1941, ac maent ar gael i'r cyhoedd ar ôl i gan mlynedd fynd heibio. Felly y canlyniadau diweddaraf y gellir edrych arnynt yw'r rhai ar gyfer 1881. Y canlyniad cyntaf sy'n ddefnyddiol i'r hanesydd teulu ydyw'r rhai ar gyfer 1841, (dim ond ystadegau a geir yn y rhai cynharach). Cedwir y rhai gwreiddiol yn Swyddi a'r Cofnodion Cyhoeddus, ond ceir copiâu microffilm yno, neu yn Archifdy'r ardal honno. Dosberthir y canlyniadau yn ôl ardaloedd o fewn plwyfi felly mae angen amcan go lew o'r cyfeiriad. Yn 1841 o fewn pob cartref y wybodaeth a roddir yw: enw, oed, galwedigaeth ac a gafodd y person ei eni yn y sir ai peidio: (Y am do, N am naddo); mae'r oed a roddir yn frasgywir o fewn 5 mlynedd. Ar ôl 1841 mae'r canlyniadau hefyd yn cynnwys perthynas o fewn teulu, yr union oed, a phlwyf eu geni. Mae hyn yn ddefnyddiol oherwydd mae'n dweud wrthyh yn fras pryd a ble y cafodd person ei eni a gellir edrych ar Gyfrifiadau neu Gofrestri Plwyfi cynharach.

Ar gyfer disgynyddion uniongyrchol neu bersonau yn gweithredu ar eu rhan mae'r Swyddfa Gofrestri Cyffredinol, St. Catherine's House, Kingsway, Llundain, yn fodlon, am dal, i chwilio yng nghanlyniadau 1891 ac 1901 i ganfod oed a man geni personau a enwir ddim ond iddynt gael yr union gyfeiriad.

Y mae hi'n bwysig cofio nad yw'r manylion a roddir yn y Cyfrifiad bob amser yn gywir.

### **Cofrestri Plwyf**

Y prif ffynonellau ar gyfer gwybodaeth am enedigaethau, priodasau a marwolaethau cyn 1837 yw Cofrestri'r Plwyfi am feddyddiadau, priodasau a chladdedigau. Yn Lloegr a Chymru dechreuodd rhain gael eu cadw o 1538, er mai ychydig o enghreifftiau mor gynnar â hynny sydd wedi goroesi. Mae swm y manylion yn y cofrestri yn amrywio o blwyf i blwyf ac o glerc i glerc ond rhoddir dyddiad y bedydd bob amser gydag enwau'r plentyn a'r rhieni; efallai y

rhoddir y cyfeiriad a ga1wedigaeth y tad hefyd. Efallai mai dim ond cofnodi enwau a dyddiad a wna cofnodion priodas hyd at 1753 ond o 1754 ychwanegwyd llofnodion neu farciau'r ddeuddyn, ynghyd â'u cyfeiriadau a'u statws briodasol, ac weithiau'u galwedigaethau. Mae llawer o gofnodion claddu cyn 1813 yn rhoi dim mwy na'r enw a'r dyddiad.

Os gewch chi o hyd i fedydd eich hynafiad a bedydd brodyr a chwirydd hyn, edrychwch am briodas y rhieni yn y deng mlynedd o gwmpas y dyddiad o flaen y bedydd cyntaf. Os na ellwch ddod o hyd iddo a bod y briodas wedi digwydd ar ôl 1754 edrychwch am Gofrestri Gostegion. Bydd y rhain yn cofnodi pryd y darllenwyd y gostegion a phlwyf y cymar arall. Gall y rhain, os ydynt wedi goroesi, fod o gymorth am fod priodasau fel arfer ym mhlwyf y wraig. Cedwir Cofnodion Plwyf yn yr Archifdy Rhanbarthol neu yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y mae llawlyfr o leoliad Cofrestri Plwyf yng Nghymru ar gael.

### **Adysgrifiadau Esgobion**

O 1598 hyd tua 1860 danfonwyd adysgrifiadau o gofnodion yn y Cofrestri Plwyf gan offeiriaid at gofrestrydd yr esgobaeth. Prin yw'r adysgrifiadau cynnar o Gymru sydd wedi goroesi cyn 1660 ond maent ar gael ar gyfer y mwyafrif o blwyfi o ail hanner y ddeunawfed ganrif ymlaen. Mae'r rhain yn werthfawr am eu bod yn aml yn llenwi bylchau a achosir gan gofrestri coll. Hyd yn oed lle bo cofrestr wedi goroesi gallant fod yn ddefnyddiol gan eu bod weithiau yn cynnwys gwybodaeth nad ydyw yn y Gofrestr Plwyf, neu gallant fod o gymorth i egluro manylion lle bo'r llawysgrif yn y gofrestr yn anodd i'w darllen. Cedwir Adysgrifiadau Esgobion ymhlith cofnodion esgobaethau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, ond mae gan yr Archifdy lleol restr o'r rheiny sydd ar gael ar gyfer y sir arbennig honno.

### **Trwyddedi Priodas**

O'r unfed ganrif ar bymtheg hyd ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg copi pobl (yn arbennig y cyfoethog) eu priodi trwy drwyddedi sydd ar gael oddi wrth yr esgob, yr archesgob neu ryw awdurdod eglwysig arall. Mae'r honiadau a ddeuai cyn rhoi'r trwyddedi yn aml yn rhoi gwybodaeth werthfawr, megis enwau, dyddiadau, lleoedd, oedrannau a galwedigaeth y priodfab. Maent weithiau yn rhoi enw tad un neu ddau o'r ddeuddyn. Cedwir Honiadau Trwyddedi Priodas yr esgobaethau Cymreig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Os oedd y ddeuddyn yn dod o fwy nag un esgobaeth cyhoeddus y drwydded gan Archesgob Caergaint a chedir rhain yn Llyfrgell Palas Lambeth, Llundain, SE1 7JU.

### **Cofnodion Capeli**

Os na fedrwyd gael hyd i'ch hynafiaid yn y Cofnodion Plwyf efallai mae anghydfurfwr oeddynt. O 1754 'roedd yn rhaid i bawb ar wahân i'r Crynwyr briodi yn eglwys y plwyf, ond nid oedd unrhyw orfodaeth ynglŷn â bedydd. Yn gyffredinol ni chadwyd cofnodion yr enwadau anghydfurfiol mor gyson â rhai'r eglwys sefydledig. Mae'n anarferol cael cofnodion cynharach na'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a phan font ar gael, maent yn aml yn ymestyn dros ardal eang. Ceir nifer o gofnodion cyn cofrestru sifil o fedydd yn y PRO (a elwir 'Cofrestri Anghydfurfiol') ac mae gan yr Archifdai gopi microffilm o'r rhain ond maent yn delio ag achosion a sefydlwyd cyn 1837 yn unig, ac nid y cyfan o'r rhain. Gall rhai cofrestri fod wedi goroesi gyda chasgliadau'r capeli'u hunain. Mae cofrestri capeli wedi 1837 yn brin iawn.

### **Cofnodion Pabyddol**

Mae'r mwyafrif o gofrestri (sydd fel arfer ond yn dyddio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg), yn dal yng ngofal yr Eglwys Babyddol. Os ydych yn olrhain hynafiaid Pabyddol, dylech gysylltu â'r "Catholic Record Society" do 114 Mount Street, Llundain, W17 4BT neu'r archifydd esgobaethol perthnasol.

### **Mynegai Achau Rhyngwladol y Mormoniaid**

Cynhyrchwyd y mynegai hwn gan Gymdeithas Achau Eglwys Saint y Dyddiau Diwethaf Iesu Grist (y Mormoniaid). Yn yr esgobaethau Cymreig cafwyd gwrthwynebiadau oddi wrth esgobion ac offeiriaid, ac felly, ni chawsant wneud microffilm o lawer o gofrestri. Fodd bynnag y mae'n dal yn gymorth gwerthfawr ddarganfod hynafiaid, yn enwedig os nad yw'r enwau yn rhy gyffredin. Mae'r mwyafrif o gofnodion yn ymwneud â bedydd, rhai a phriodasau,

ond dim claddedigaethau. Trefnir cofnodion am Gymru fel un uned. Gellir edrych ar y mynegai mewn Archifdai a Changhennau o Lyfrgelloedd y Mormoniaid.

### **Cofnodion Mynwentydd**

Mae'r rhain yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth, ond mae'r ymchwil yn aml yn cymryd llawer o amser. Yn anffodus, mae mynwentydd yn aml wedi'u cuddio gan chwyn ac mae symud cerrig beddau yn dod yn berygl mwy cyffredin. Mae nifer o gymdeithasau megis Cymdeithasau Hanes Teuluoedd a Sefydliadau'r Merched, fodd bynnag, yn rhestru ysgrifeniadau mewn mynwentydd. Os ceir hyd gerrig beddau ceir fel arfer enwau a dyddiadau mwy nag un aelod o'r teulu ac yn aml câi aelodau o'r un teulu eu claddu yn yr un rhan o'r fynwent. Mae'r Archifdai yn cadw Cofrestri Claddu am nifer o fynwentydd cyhoeddus ymhlith eu cofnodion llywodraeth leol; ac mae Cofrestri Claddu ar gyfer rhai mynwentydd capel hefyd ar gael.

### **Ewyllysiau a chofnodion profiant eraill**

Gall ewyllysiau fod o gymorth mawr i olrhain hanes teulu, gan y câi cymynroddion eu gadael i sawl aelod o deulu, gan esbonio perthynas a rhoi cyfeiriadau, ond mae'n rhaid cofio nad oedd pawb yn gwneud ewyllys. Sefydlwyd Cofrestri Profiant yn 1858 ond cyn hynny mater i'r eglwys sefydledig oedd profiant. Cedwir ewyllysiau a brofwyd yng Nghymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r mynegeion i'r ewyllysiau hyn ar gael ar feicroffilm yn Archifdy Rhanbarthol Caernarfon gyda chopïau o'r ewyllysiau'n hunain am 1576-1733. Profwyd ewyllysiau pobl yn dal tir mewn mwy nag un esgobaeth yng Nghymru yn Llys Rhagorfraint, Caergaint a chedwir rhain yn Swyddfa'r Cofnodion Cyhoeddus, Chancery Lane, Llundain. Ar ôl 1858 cedwir ewyllysiau gan Brif Gofrestfa'r Adran Deuluol, Somerset House, Strand, Llundain, WC2R 1LA. Gellir edrych ar ewyllysiau a brofwyd yn Swyddfa Brofiant y Dosbarth, sydd nawr ym Mryn Castell, Stryd Fawr, Bangor, yn y fan honno. Cedwir Calendrau Blyneddol Grantiau Profiant am Gymru a Lloegr 1858-1935 yn Archifdy Rhanbarthol Caernarfon. Maent yn dangos dyddiadau marw, cyfeiriadau, enwau'r gweinyddwr/ysgutor, a gwerth y stadau, yn ogystal â nodi'r swyddfa oedd yn rhoi'r grant o brofiant. Argymhellir chwilio o fewn cwmpas deng mlynedd gan gynnwys blwyddyn y farwolaeth gan na wneid cais am brofiant bob amser ar unwaith. Gellir cael hyd i ewyllysiau hefyd yng nghasgliadau cyfreithwyr; edrychwch drwy'r mynegeion yn yr Archifdai.

### **Cofnodion Eraill**

#### **Cyfarwyddiaduron**

Yn gyffredinol o'r 1820au hyd at yr Ail Ryfel Byd mae'r rhain yn arweiniad da drefi a phlwyfi mawr sy'n rhestru'r prif drigolion, masnachwyr, ac ati, ynghyd â'u cyfeiriadau.

#### **Cofrestri Etholwyr**

Argraffwyd y rhain o 1832 ymlaen. Yn anffodus 'roedd yr etholfraint yn y cyfnod hwnnw'n gyfyngedig, ond cafodd ei ymestyn yn raddol; cyfyngwyd y bleidlais ddynion (ar wahân i wragedd oedd yn talu trethi mewn etholiadau lleol) tan 1918, ac ni chafodd ei estyn yn llawn i wragedd tan 1928. O 1868 ymlaen rhoddir cyfeiriadau etholwyr hefyd.

#### **Papurau Newyddion**

Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth sydd yn werthfawr i'r hanesydd teulu megis llith am farwolaeth rhywun a chyhoeddiadau geni, priodi a marw. Yn anffodus nid oedd cyhoeddiadau o'r fath mor gyffredin ag ydynt heddiw ond mae bob amser yn werth gwneud yn siwr os oes gennych amcan o'r dyddiad dan sylw: heb ddyddiad fe fyddai'r ymchwil yn un llafurus iawn. Cedwir casgliadau helaeth o bapurau lleol ym mhob un o dri Archifdy Gwynedd gan gynnwys *The North Wales Gazette*, *North Wales Chronicle* mwy diweddar (mae'n dechrau yn 1808), y *Caernarvon and Denbigh Herald* (o 1831) a'r *Herald Cymraeg* (o 1855); mae'r rhain i gyd ar gael yn Archifdy Rhanbarthol Caernarfon.

### **Cofnodion Degwm**

Darparodd *Deddf Cyfnewid Degwm* 1836 am brislo tir yr oedd yn rhaid talu degwm arno er mwyn gosod tâl arian yn ei le. Mae'r rhaniadau sy'n dod gyda'r Mapiau yn enwi'r perchnogion a'r preswylwyr (y pennau teuluoedd yn unig).

### **Cofnodion Stadau**

Os bu hynafiad yn byw ar stâd fawr, ceis yn aml gyfeiriadau ato yn y rhentolion, prydlesi, ac ati. Mae hi bob amser yn werth ceisio sefydlu ar ba stâd 'roedd y teulu'n byw. Gall staff yn yr Archifdy ddweud fel rheol os a ble y cedwir cofnodion stad.

### **Treth Tir**

Mae'r cofnodion hyn fel arfer yn delio â'r cyfnod 1780-1831(1746-1812 ar gyfer ardal Aberconwy) ar gyfer Sir Gaernarfon; 1712-1868/9 ar gyfer Sir Fôn, ac yn enwi perchnogion a phreswylwyr tai fesul plwyf - pennau teuluoedd yn unig. Nid oes rai ar gael ar gyfer Meirionnydd.

### **Deddf y Tlawd**

O gyfnod Elizabeth ymlaen i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyfrifoldeb y plwyf oedd cymorth y tlawd. 'Does dim dal pa un ai yw cofnodion wedi'u cadw ai peidio, ond gall fod Llyfrau Treth y Tlawd, Cyfrifon Goruchwylwyr, Tystysgrifau Setliad a Gorchmynion Symud. O 1834 ymlaen unwyd plwyfi yn Undebau a sefydlwyd tlotai; gall eu cofnodion gynnwys Cofrestri Derbyn a Gollwng, Cofrestri Genedigaethau a Marwolaethau, Rhestr Cymorth y Tu Allan ac ati. Sesiynau Chwarter oedd yn goruchwilio gweinyddu Deddf y Tlawd, a cheir cofnodion ymhlith y papurau Llys ynghylch setliad a symudiad tlodion.

### **Cofnodion Ysgol**

Yn anffodus ni cheir llawer o Gofrestri Derbyn yr ysgolion yn yr Archifdai a dim ond yn achlysurol y mae Llyfrau Cofnodion yn sôn am ddisgyblion unigol, ond y mae' n werth edrych rhag ofn.

### **Mynegeion**

Am y gallai cofnodion sydd o gymorth i'r hanesydd teulu fod ar gael yn y rhan fwyaf o gasgliadau yn yr Archifdy mae hi bob amser yn werth edrych drwy'r mynegeion yn yr Archifdy. Os oedd gan eich hynafiad enw cyffredin lawn mae hi'n werth edrych drwy'r mynegai enwau lleoedd hefyd, os wyddoch chi enw'r plwyf.

Ar waetha'r deunydd cynyddol sydd ar gael mewn Archifdai mae hi'n dal yn bosibl cael hyd i ddim byd wrth olrhain hanes eich teulu a rhaid i'r ymchwilywyr sylweddoli cyn cychwyn ar y gwaith na fwriadwyd y cofnodion yn wreiddiol i gynorthwyo'r ymchwil hwn. Gall astudiaeth fanwl a llawn olygu dyddiau os nad wythnosau o ymchwil, a rhaid i'r ymchwilydd fod yn barod i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith, er y gall staff yr Archifdy gynnig cyngor.

### **Llyfrau**

Ceir nifer o lyfrau defnyddiol ar y pwnc hwn ac fe'ch cyngorir yn gryf i ddarllen un cyn ymweld â'r Archifdy. Dau lyfr defnyddiol sydd ar gael yn yr Archifdai ac mewn llawer o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yw:

Don Steel *Discovering your Family History*, BBC 1980.

David Iredale *Discovering your Family Tree*, Shire Publications 1976

